Y Coleg Cymraeg Cenedlaethol Arfaethedig

Penodi'r Cadeirydd

Gwahoddir ceisiadau am swydd Cadeirydd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol arfaethedig.

Gwybodaeth Gefndir

Bydd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol[1] yn gorff a fydd yn hyrwyddo ac yn cynnal addysg uwch drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae sawl grŵp yn ystod y blynyddoedd diweddar wedi ceisio cael corff o'r fath, "Coleg Ffederal", i gefnogi addysg uwch cyfrwng Cymraeg. Roedd sefydlu'r Coleg yn rhan o'r cytundeb *Cymru'n Un*, y sylfaen ar gyfer rhaglen gyfredol Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Sefydlwyd Bwrdd Cynllunio ym mis Hydref 2008 dan gadeiryddiaeth yr Athro Robin Williams. Cyflwynodd yr Athro Williams ei adroddiad ar ddull arfaethedig ar gyfer sefydlu'r Coleg i'r Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau ym mis Mehefin 2009[2]. Derbyniodd Llywodraeth Cynulliad Cymru'r argymhellion ac ym mis Ebrill 2010 sefydlodd Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC), ar gais Llywodraeth y Cynulliad, Fwrdd Gweithredu i weithio ar fanylion sefydlu'r Coleg.

Caiff y Coleg Cymraeg Cenedlaethol ei sefydlu fel cwmni cyfyngedig drwy warant a bydd hefyd yn ceisio cofrestru fel elusen. Bydd pob sefydliad addysg uwch yng Nghymru – y prifysgolion – yn aelodau o'r Coleg a bydd nifer cyfartal o aelodau o gyrff rhanddeiliadol. Bydd gan y Coleg Fwrdd Cyfarwyddwyr llai gyda chadeirydd annibynnol. Bydd y Cadeirydd hefyd yn aelod unigol o'r Coleg. Bydd chwe chyfarwyddwr yn cael eu cynnig gan y sector addysg uwch, bydd un cyfarwyddwr yn cynrychioli staff addysgu cyfrwng Cymraeg a bydd un yn cynrychioli myfyrwyr. Bydd pedwar cyfarwyddwr annibynnol. Bydd gan y Coleg staff creiddiol bach, gan gynnwys Prif Weithredwr.

Amcan y Coleg fydd hybu dysgu a gwybodaeth er lles y cyhoedd drwy hyrwyddo, cynnal, datblygu a goruchwylio darpariaeth cyfrwng Cymraeg mewn addysg uwch yng Nghymru, gan weithio gyda a thrwy sefydliadau addysg uwch Cymru. Bydd hefyd yn ystyried addysg uwch sydd yn cael ei darparu mewn colegau addysg bellach.

---

[1] Sylwer: Cadarnheir enw'r corff wrth gorffori'r Coleg fel cwmni.

[2] http://wales.gov.uk/docs/dcells/publications/090622ColegFfederalReportcy.pdf (Cymraeg)

http://wales.gov.uk/docs/dcells/publications/090622ColegFfederalReporten.pdf (Saesneg)

Bydd cyfansoddiad y Coleg yn cael ei ystyried gan gyrff llywodraethu'r sefydliadau addysg uwch yn ystod mis Hydref a mis Tachwedd a gobeithir cwblhau corffori'r Coleg erbyn diwedd y flwyddyn. Ar ôl penodi'r Cadeirydd, gwneir trefniadau ar gyfer penodi'r cyfarwyddwyr. Y bwriad yw y bydd y Bwrdd Cyfarwyddwyr yn ei le erbyn mis Ebrill 2011 ac y bydd y Coleg yn dechrau ei flwyddyn academaidd lawn gyntaf ym mis Awst 2011.

Bydd y Coleg yn ymgorffori ac yn adeiladu ar waith

i) y Grŵp Sector Addysg Uwch Cyfrwng Cymraeg presennol a sefydlwyd yn 2007 i arwain ymagwedd fwy strategol at ddatblygu addysg uwch cyfrwng Cymraeg a

ii) y Ganolfan Addysg Uwch Cyfrwng Cymraeg. Mae'r Ganolfan yn arwain y gwaith o weithredu, cynnal a hwyluso cynlluniau cenedlaethol i gynyddu, datblygu ac ehangu cyfleoedd ar gyfer astudio drwy gyfrwng y Gymraeg ym mhrifysgolion Cymru.[3] Bydd staff y Ganolfan yn trosglwyddo i'r Coleg a bydd swyddfa ganolog y Coleg yng Nghaerfyrddin.

CCAUC fydd prif gyllidwr y Coleg, er y bydd y Coleg yn gallu, a disgwylir iddo, sicrhau cyllid o ffynonellau eraill.

Bydd y Coleg yn gweithredu o fewn cyd-destun ehangach blaenoriaethau Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer addysg uwch fel y'u nodir yn *Er Mwyn Ein Dyfodol, Cynllun a Strategaeth Addysg Uwch yr 21ain Ganrif i Gymru* (Tachwedd 2009).[4]

Rôl y Cadeirydd

Bydd y Cadeirydd yn atebol i Aelodau'r Coleg ac i CCAUC am berfformiad y Coleg a llywodraethu effeithiol y Coleg.

Bydd rôl y Cadeirydd fel a ganlyn:

- Rhoi arweiniad i'r Bwrdd mewn perthynas â datblygiad strategol addysg uwch cyfrwng Cymraeg.

- Sicrhau effeithiolrwydd cyffredinol y Bwrdd a'i Bwyllgorau, a chynnal safonau uchaf llywodraethu corfforaethol.

- Sicrhau bod y Coleg yn gweithio'n effeithiol gyda a thrwy sefydliadau addysg uwch Cymru a phob corff priodol arall.

---

[3] Gellir cael rhagor o wybodaeth am rôl a gwaith y Ganolfan yn http://www.welshmediumhe.ac.uk/en/

[4] http://wales.gov.uk/docs/dcells/publications/091214hestrategyen.pdf (Saesneg) http://wales.gov.uk/docs/dcells/publications/091209forourfuturecy.pdf (Cymraeg)

- Cynrychioli'r Coleg yn effeithiol yn ei ymwneud â'r holl randdeiliaid a'r cyhoedd.

- Gweithredu fel prif lefarydd y Coleg a chynrychioli'r Coleg fel rheol yn ei berthnasoedd â Llywodraeth Cynulliad Cymru, Pwyllgorau ac Aelodau'r Cynulliad Cenedlaethol yn gyffredinol, Cadeirydd a Chyngor CCAUC, ac mewn perthnasoedd â chadeiryddion ac aelodau cyrff eraill ac wrth gynnal perthnasoedd ac achlysuron eraill o bwys.

- Gwneud cyhoeddiadau polisi a datganiadau safbwynt pwysig ar ran y Coleg, gan gynnwys cyfweliadau â'r cyfryngau.

- Gweithio'n agos â Chyfarwyddwyr a'r Prif Weithredwr wrth roi cyngor ac anogaeth i'r Coleg mewn perthynas â llunio, datblygu a gweithredu polisi a chyflawni ei gyfrifoldebau a'i amcanion.

- Gosod agenda'r Bwrdd a sicrhau bod amser yn cael ei neilltuo'n briodol ar gyfer ymdrin â materion strategaeth, perfformiad a llywodraethu.

- Sicrhau bod y Cyfarwyddwyr yn cael digon o amser a gwybodaeth i ystyried materion allweddol, gan gynnwys amserlenni a dyddiadau cwblhau realistig ar gyfer gwneud penderfyniadau.

- Hwyluso cyfraniad effeithiol yr holl Gyfarwyddwyr at waith y Bwrdd.

- Sicrhau bod prosesau cynllunio olyniaeth digonol yn eu lle ar gyfer swyddi'r Cadeirydd, Prif Weithredwr, a swyddogion uwch eraill.

- Gweithredu fel rheolwr llinell i Brif Weithredwr y Coleg.

Manyleb Person

Disgwylir y bydd gan y Cadeirydd y canlynol:

- Profiad helaeth o arweinyddiaeth drefniadaethol ar lefel strategol yn y sectorau cyhoeddus neu breifat.

- Profiad a dealltwriaeth o faterion addysgol, gan gynnwys addysg uwch ac yn arbennig addysg uwch cyfrwng Cymraeg; a'r gallu i gysylltu'ch profiad a gwybodaeth ag anghenion cymdeithasol, economaidd a diwylliannol Cymru, ac anghenion unigolion, cymunedau a chyflogwyr.

- Profiad a dealltwriaeth o'r berthynas rhwng yr adnoddau sydd ar gael a chyflawni targedau o fewn strwythur rheoli a llywodraethu effeithiol.

- Profiad o adeiladu partneriaethau a pherthynas gwaith effeithiol gydag amrywiaeth o randdeiliaid, a'r gallu i wneud hyn.

- Y gallu i gyfathrebu'n rhugl ar lafar ac yn ysgrifenedig yn y Gymraeg a'r Saesneg.

- Sgiliau uwch ym meysydd eiriolaeth, trafod, y cyfryngau a chyfathrebu, a'r hygrededd personol i hyrwyddo buddiannau'r Coleg.

- Sgiliau penderfynu o'r radd flaenaf.

- Y gallu i ysbrydoli ac i hyrwyddo cenhadaeth y Coleg, gan ddatblygu strategaethau clir a gweithio tuag at dargedau tymor-byr a thymor-hir.

- Sensitifrwydd i faterion dadleuol ac ymwybyddiaeth wleidyddol gref.

- Dealltwriaeth glir o faterion cydraddoldeb ac ymrwymiad iddynt, ac i herio arferion gwahaniaethol pan fo'n briodol.

Y penodiad

Bydd y penodiad am gyfnod o dair blynedd i ddechrau.

Ymrwymiad o ran amser

Bydd Bwrdd y Cyfarwyddwyr yn cyfarfod o leiaf deirgwaith y flwyddyn er ei bod hi'n bosibl y bydd mwy o gyfarfodydd ar y dechrau. Mae'n bosibl y bydd angen i'r Cadeirydd fynychu cyfarfodydd pwyllgor eraill hefyd. Bydd cyfarfod cyffredinol blynyddol o Aelodau'r Coleg. At ei gilydd, disgwylir y bydd angen i'r Cadeirydd neilltuo'r hyn sy'n cyfateb i oddeutu tri/pedwar diwrnod y mis i'r Coleg, er ei bod hi'n bosibl y bydd yr ymrwymiad yn fwy yn ystod cyfnod sefydlu'r Coleg.

Dyddiad dechrau

Disgwylir y bydd y dyddiad dechrau ym mis Rhagfyr ond efallai y bydd yn gynt gan ddibynnu ar y cynnydd sy'n cael ei wneud gyda'r broses gorffori. Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd disgwyl i'r Darpar Gadeirydd fod â rhan cyn hyn mewn dewis y cyfarwyddwyr sydd heb eu penodi.

Talu treuliau

Swydd ddi-dâl yw hon. Sut bynnag, byddwch chi'n gallu hawlio treuliau teithio a threuliau rhesymol eraill a all godi wrth wneud gwaith ar ran y Coleg o fewn terfynau a osodir gan Fwrdd y Cyfarwyddwyr.

Cymhwyster

Ni all y Cadeirydd fod yn aelod o staff na chorff llywodraethu unrhyw sefydliad addysg uwch yng Nghymru. Bydd yn bosibl i ymgeisydd sy'n aelod o gorff llywodraethu wneud cais am swydd y Cadeirydd ond bydd gofyn iddo/iddi

ymddiswyddo ar unwaith o'r corff llywodraethu hwnnw os caiff ei benodi/phenodi.

Ymddygiad

Disgwylir i'r Cadeirydd ymddwyn ar bob adeg mewn ffordd a fydd yn cynnal hyder y cyhoedd ac yn dangos ymlyniad wrth safonau uchaf llywodraethu corfforaethol. Rhan o waith cychwynnol Bwrdd y Cyfarwyddwyr fydd paratoi rheolau i sicrhau nad effeithir yn amhriodol ar eu penderfyniadau gan wrthdaro rhwng buddiannau. Ond dylai ymgeiswyr ddatgan unrhyw fuddiannau personol, proffesiynol neu fusnes a all ddylanwadu ar eu barn wrth gyflawni swyddogaethau Cadeirydd y Coleg neu y gellid tybio y byddent yn gwneud hynny.

Y broses gwneud cais a dewis

Croesewir ceisiadau gan bob rhan o'r gymuned. Bydd egwyddorion cystadleuaeth deg ac agored yn cael eu cymhwyso a gwneir y penodiad ar sail teilyngdod.

Gwneir y penodiad gan banel a fydd yn cynnwys cynrychiolwyr o CCAUC ac Addysg Uwch Cymru (AUC), ac aseswr allanol. Bydd disgwyl i'r rheiny y rhoddir gwahoddiad iddynt ddod i gyfweliad ddangos sut y maent hwy'n bodloni'r gofynion yn y fanyleb person drwy ddefnyddio enghreifftiau a thystiolaeth.

Mae Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) yn cynorthwyo gyda'r trefniadau ar gyfer sefydlu'r Coleg. Dylid gwneud ceisiadau drwy lenwi'r ffurflen gais amgaeedig, a ddylai gael ei dychwelyd i: Dr Alison Allan, Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru, Y Berllan, Cwrt Linden, Clos Ilex, Llanisien, Caerdydd CF14 5DZ. Y dyddiad cau yw: 10 Tachwedd 2010. Ni fydd ffurflenni cais a dderbynnir ar ôl y dyddiad hwn yn cael eu hystyried. Disgwyliwn gynnal cyfweliadau diwedd misTachwedd neu ddechrau mis Rhagfyr. Mae'r dyddiad cau wedi'i ymestyn i 19 Tachwedd 2010.

Os hoffech drafod rôl y Cadeirydd ymhellach, byddwch cystal â chysylltu â Dr Alison Allan (ffôn 029 2068 2223, e-bost alison.allan@hefcw.ac.uk).